# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 28 Medi 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(18) v2

**1. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (45 munud)**
Gweld y cwestiynau

**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (45 munud)**
Gweld y cwestiynau

**3. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM4810 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i

a) Cydnabod potensial busnesau bach a chanolig i dyfu economi Cymru;

b) Creu'r amodau angenrheidiol ar gyfer mwy o weithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru; ac

c) Cynnig cymorth sy'n diwallu anghenion busnesau.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ym mhwynt b, ar ôl 'Nghymru' rhoi 'drwy, ymysg pethau eraill, leihau'r beichiau rheoleiddio ar fusnesau, datblygu Cronfa Arloesi a chynnig grantiau hyfforddi i fusnesau sy'n cyflogi pobl ifanc ddi-waith.'

**4. Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM4812 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1) Yn credu bod Cymru'n cael ei gwasanaethu'n dda gan ei rhwydwaith o Ysbytai Cyffredinol Dosbarth; a

2) Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud datganiad clir na fydd yn caniatáu i Fyrddau Iechyd Lleol ganoli gwasanaethau oddi wrth Ysbytai Cyffredinol Dosbarth.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

*[os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei dad-ddethol]*

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt 2, dileu "wneud datganiad clir na fydd yn caniatáu i Fyrddau Iechyd Lleol ganoli gwasanaethau oddi wrth Ysbytai Cyffredinol Dosbarth" ac yn ei le rhoi "gefnogi Byrddau Iechyd Lleol wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau i gynllunio a darparu gwasanaethau mewn modd priodol."

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2) rhoi 'llawdriniaethau brys a chyffredinol' ar ôl 'gwasanaethau'

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn credu bod cleifion yn cael eu gwasanaethu orau gan wasanaethau a ddarperir mor agos â phosibl at gartrefi'r cleifion, ac sy'n ddiogel yn glinigol, gan ddefnyddio rhwydwaith o ysbytai cyffredinol dosbarth, ysbytai cymunedol a chanolfannau rhagoriaeth.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai'r Fforwm Clinigol Cenedlaethol, pan gaiff ei sefydlu, ystyried anghenion Ysbytai Cyffredinol Dosbarth wrth aildrefnu'r GIG yn y dyfodol.

**5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**
**NDM4811 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei Chronfa Swyddi Cymru yn canolbwyntio ar gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth yn y sector preifat.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Yn lle “yn canolbwyntio ar gyfleoedd”, rhoi “yn cynnwys cyfleoedd”

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu ‘yn y sector preifat’ a rhoi yn ei le ‘yn unol â’r Rhaglen Adnewyddu’r Economi’.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod cyflogaeth yn y sector preifat yng Nghymru wedi gweld gostyngiad o 3.7% rhwng mis Mehefin 2010 a mis Mehefin 2011, y gostyngiad mwyaf yn y DU.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio’n agos gyda chyflogwyr lleol a darparwyr hyfforddiant i ganfod cyfleoedd drwy Gronfa Swyddi Cymru.

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddileu ardrethi busnes ar gyfer busnesau bach yng Nghymru sydd â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai i helpu i gynyddu effaith Cronfa Swyddi Cymru a helpu i greu swyddi parhaol yn y sector preifat.

**Cyfnod pleidleisio**

**6. Dadl Fer (30 munud)**
**NDM4809 Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):**

Yr Anabledd Cudd – Materion Clyw yng Nghymru

Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 Dydd Mawrth, 4 Hydref 2011